

## **Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig** **Gofynion Statudol mewn perthynas â Chwynion yr Heddlu**

***Cyfnod yr Adroddiad: 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022***

### **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn i fodloni gofynion Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygiad) 2021.
- 1.2 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dair prif ddyletswydd mewn perthynas â chwynion yr heddlu, fel yr amlinellir isod:
  - Awdurdod Priodol i ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl
  - Dyletswydd i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth ddarparu proses cwynion effeithiol ac effeithlon
  - Corff Adolygu Perthnasol o rai o gwynion yr heddlu
- 1.3 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau a'r prosesau a roddwyd ar waith i gyflawni'r dyletswyddau hyn a bydd yn rhoi sicrwydd bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chwynion yr heddlu.
- 1.4 Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion unrhyw gŵyn neu adolygiad penodol y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi ymdrin â hwy.

### **2. Dyletswyddau Statudol**

#### **2.1 Awdurdod Priodol i ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl**

- 2.1.1 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer ystyried cwynion am Brif Gwnstabl Heddlu Gwent. Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yw sicrhau yr ymdrinnir â'r cwynion hynny mewn ffordd resymol a chymesur. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi dirprwyo'r ddyletswydd ar gyfer ymdrin â'r cwynion hyn i'r Prif Weithredwr fel Awdurdod Priodol a chaiff gefnogaeth gan y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth.
- 2.1.2 Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, derbyniodd Swyddfa'r Comisiynydd ddwy gŵyn ffurfiol (atodlen 3) am y Prif Gwnstabl. Gwnaed dau adolygiad yn erbyn penderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), a chafodd y ddau adolygiad eu cadarnhau o blaid Swyddfa'r Comisiynydd. Yn ogystal, cofnodwyd ac ymatebwyd i un gŵyn yn anffurfiol (dim atodlen 3) a barnwyd nad oedd tri chŵyn arall yn gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl ond yn hytrach yn gwynion yn erbyn swyddogion o dan ei chyfarwyddyd a'i rheolaeth.

#### **2.2 Sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif**

- 2.2.1 Y Prif Gwnstabl yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer pob cwyn a wneir am swyddogion, staff a gwasanaethau o dan ei chyfarwyddyd a'i rheolaeth. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i dirprwyo i'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac yn cael ei chyflawni gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu.
- 2.2.2 Mae dyletswydd ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl system effeithiol ac effeithlon ar waith ar gyfer cwynion yr heddlu. Y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad yw'r fforwm a ddefnyddir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona ledled ardal Gwent. Cynhelir cyfarfodydd bob tri mis a defnyddir blaenraglen waith sy'n sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn

canolbwyntio ar faterion penodol a'u bod yn effeithiol. Ym mhob cyfarfod, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn derbyn adroddiad perfformiad gan Heddlu Gwent ynglŷn â'u gwaith rheoli cwynion.

- 2.2.3 Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn adolygu data cwynion er mwyn canfod unrhyw uchafbwyntiau o ran cwynion neu i benderfynu a oes nifer uchel o gwynion mewn maes penodol o blismona. Gellir gweld yr adroddiadau tri mis, a gyflwynir yn y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad, ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd ac maent yn rhoi dadansoddiad o achosion o gwynion a honiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gwent, perfformiad wrth ymdrin â chwynion, ystadegau adolygu a manylion achosion o gamymddwyn ar gyfer pob cyfnod adrodd.

[Adroddiad Perfformiad Cwynion Heddlu Gwent Chwarter 1 2021/22](#)

[Adroddiad Perfformiad Cwynion Heddlu Gwent Chwarter 2 2021/22](#)

[Adroddiad Perfformiad Cwynion Heddlu Gwent Chwarter 3 2021/22](#)

[Adroddiad Perfformiad Cwynion Heddlu Gwent Chwarter 4 2021/22](#)

- 2.2.4 Rhoddir ystyriaeth i waith pellach y gallai bod angen ei gyflawni er mwyn rhoi sylw i bryderon ailadroddus. Gall hyn gynnwys hapsamplu, gyda'r nod o graffu ar gydymffurfiaeth â phroses rheoli cwynion yr Heddlu. Mae nifer yr achosion o gwynion am yr heddlu a ystyrir gan Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent yn golygu y byddai'n anymarferol i Swyddfa'r Comisiynydd oruchwylio pob achos yn ymwneud â chwyn, gan hynny mae hapsamplu'n galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gyflawni ei gyfrifoldeb o ran goruchwylio a monitro yn unol â deddfwriaeth. Gellir gweld canlyniad hapsamplu diweddar gan Swyddfa'r Comisiynydd trwy ddilyn y ddolen ganlynol: [Penderfyniadau | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#)
- 2.2.5 Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd brosesau ar waith i ymdrin â chyfathrebu, anfodlonrwydd a chwynion a dderbynnir sydd o natur weithredol neu mewn perthynas â swyddogion o dan reng y Prif Gwnstabl - cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw'r cyfathrebu hwn sydd y tu allan i gylch gwaith Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ystyried yr holl gyfathrebu a dderbyniwyd ac yn rhoi cyngor perthnasol i'r unigolyn, gan gynnwys y broses ar gyfer gwneud cwyn i'r Heddlu, manylion yr adran neu'r broses sy'n berthnasol i'w cyfathrebu a/neu unrhyw wybodaeth/dolen berthnasol i gael gwybodaeth bellach ar wefan yr Heddlu.
- 2.2.6 Mae Heddlu Gwent hefyd wedi rhoi Bwrdd Sicrwydd ar waith i ystyried cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion gan gyrff allanol, gan gynnwys unrhyw argymhellion gan IOPC neu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n ymwneud â'r broses cwynion. Cynhelir y cyfarfod hwn bob tri mis ac fe'i mynychir gan y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth o Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff tîm Swyddfa'r Comisiynydd ei hysbysu am faterion fel y bo'n briodol a chynhelir trafodaethau pellach gyda Heddlu Gwent er mwyn gweithredu yn sgil argymhellion os yn briodol.
- 2.2.7 Craffir ymhellach ar swyddogaeth cwynion yr heddlu gan IOPC. Cynhelir ymchwiliadau wedi'u trefnu gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi hefyd. Mae adroddiadau ystadegol o'u gwaith craffu a'u canfyddiadau ar gael ar eu gwefannau priodol. Caiff ymatebion Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent i asesiadau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi eu cyhoeddi ar ein gwefan [Ymatebion i Arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub](#)

[Ei Mawrhydi | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#). Mae cynnydd yn erbyn holl argymhellion Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ar gael ar ei gwefan hefyd [Progress against recommendations - HMICFRS \(justiceinspectorates.gov.uk\)](#)

- 2.2.8 Mae dulliau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro a gwella ansawdd ymatebion i gwynion am Heddlu Gwent. Fel y nodwyd eisoes, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn hapsamplu ffeiliau cwynion yr heddlu sy'n cynnwys ystyried unrhyw waith pellach y gallai bod angen ei gyflawni i roi sylw i ansawdd ymatebion i achwynwyr ac i wella'r ymatebion hynny.
- 2.2.9 Mae dulliau sicrhau ansawdd wedi eu corffori ym mhrosesau cwynion Heddlu Gwent hefyd. Yn y mwyafrif o achosion, ymdrinnir â phob cwyn gofnodedig gan Ringyll arbenigol sy'n gyfrifol am ardal benodol o fewn yr heddlu. Mae'r Rhingyll yn ystyried y gŵyn ac yn drafftio adroddiad a gaiff ei anfon at yr Awdurdod Priodol yn yr Adran Safonau Proffesiynol i'w ystyried cyn ei gymeradwyo'n derfynol.
- 2.2.10 Yn ogystal, pan gaiff pob adolygiad o gŵyn ei ystyried, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cadw cofnod o'r holl argymhellion/gwersi a ddysgwyd a wnaed i Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn sicrhau ei bod wedi derbyn ymateb boddhaol gan Heddlu Gwent sy'n rhoi sylw i'r argymhellion/gwersi a ddysgwyd, cyn rhoi gwybod i'r achwynydd a diweddarau'r cofnod gyda'r manylion hynny. Wedyn caiff y cofnodion eu hystyried ar gyfer unrhyw gyfleoedd i wella ansawdd ymatebion i gwynion yn y dyfodol.
- 2.2.11 Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, derbyniodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd bedair gohebiaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd dan reoliad 13 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020, lle nad yw ymchwiliad wedi cael ei gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol". Darparodd Heddlu Gwent dri o'r diweddariadau hyn a darparwyd y diweddariad diwethaf gan IOPC am gŵyn yr oeddent yn ei rheoli mewn perthynas â Heddlu Gwent.
- 2.2.12 Mae Panel yr Heddlu a Throsedd Gwent yn craffu ar waith Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac yn cefnogi ei waith. Trwy gydol 2021-2022, parhaodd y Panel i ddwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gyfrif am ei waith yn cyflawni ei swyddogaethau statudol ac yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn ei Gynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r Panel yn cynnwys aelodau a enwebir gan y cynghorau lleol yn ardal yr heddlu, ac o leiaf ddau aelod annibynnol. Cynhaliwyd pum cyfarfod Panel ffurfiol yn ystod 2021/22. Gellir dod o hyd i agendau a chofnodion ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd Gwent: [Cyfarfodydd « Panel Heddlu a Throsedd Gwent \(gwentpcp.org.uk\)](#)
- 2.3 **Asesiad o Berfformiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd – Nodwyd Swyddfa'r Comisiynydd fel y Corff Adolygu Perthnasol**
- 2.3.1 Gwnaeth Deddf Plismona a Throsedd 2017 a rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Cyflwynodd nifer o newidiadau gyda'r nod o gyflawni system cwynion a oedd yn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid. Mae'n bwysig datgan mai nod y diwygiadau yw gwneud y system ddisgyblaeth yn fwy cymesur ac annog mwy o bwyslais o lawer ar ddysgu o gamgymeriadau.
- 2.3.2 Ychwanegwyd at atebolrwydd lleol trwy newidiadau i rôl comisiynwyr yr heddlu a throseddu. Mae ganddynt rôl ganolog wrth benderfynu sut mae'r system gwynion yn

gweithredu ar lefel leol, gan fod ganddynt yr opsiwn o ysgwyddo cyfrifoldeb uniongyrchol am rai swyddogaethau. Tra'r oedd apeliadau wedi cael eu trin yn flaenorol gan naill ai'r Prif Gwnstabl neu'r IOPC, mae'r hawl newydd i wneud cais am adolygiad naill ai i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu IOPC. Nod y newid hwn yw cynyddu annibyniaeth a thryloywder.

- 2.3.3 Mae'r Ddeddf yn darparu dewis o dri model, y gall y Comisiynydd ddewis eu mabwysiadu. Yng Ngwent, cadarnhaodd y Comisiynydd y bydd Model 1 yn cael ei fabwysiadu yn unol â pharagraff 13a o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017. Gellir gweld y rhesymeg dros y penderfyniad hwn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd: [Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent wedi ystyried a nodi ei ddewis o ran newidiadau i'r Adolygiad o Gwynion yr Heddlu a gyflwynwyd gan y Ddeddf Plismona a Throsedd 2017.](#) Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent ([pcc.police.uk](http://pcc.police.uk))
- 2.3.4 Ers 1 Chwefror 2020, os cofnodwyd cwyn unigolyn o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, gall gyflwyno cais am adolygiad i'r Corff Adolygu Perthnasol, naill ai IOPC neu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae Heddlu Gwent yn parhau i fod yn gyfrifol am logio, cofnodi ac ymchwilio i gwynion ac am roi gwybod i achwynwyr am y cynnydd.
- 2.3.5 Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi datblygu dulliau sicrhau ansawdd i sicrhau bod penderfyniadau adolygu yn gadarn ac yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth cwynion a chanllawiau statudol IOPC. Mae'r adolygiadau'n cael eu hystyried yn annibynnol gan gwmni allanol o'r enw Sancus (gweler adran 3), yna mae'r adolygiad yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag argymhellion Sancus a'r canlyniad a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth. Yna mae'r Prif Weithredwr a Swyddog Monitro yn ystyried y canlyniad arfaethedig cyn ei ddatgelu. Cytunwyd i gyflwyno dull ychwanegol i gefnogi'r swyddogaeth cwynion o fewn Swyddfa'r Comisiynydd a bydd yn cael ei roi ar waith yn 2022/23. Bydd hyn yn golygu y bydd y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn symud i fod yn gyfrifol am gymeradwyo a bydd y Prif Weithredwr yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros graffu ar y maes. Mae staff Swyddfa'r Comisiynydd sy'n rhan o'r broses adolygu yn mynychu gweithdai a digwyddiadau IOPC yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol cyfredol.
- 3. Adolygiadau ar Contract Allanol**
- 3.1 Penderfynodd comisiynwyr heddlu a throsedd Dyfed Powys, Gwent a Gogledd Cymru geisio cefnogaeth allanol ar gyfer y broses adolygu yn 2020, gan mai hwn oedd yr opsiwn mwyaf hyfwr yn ariannol a byddai hefyd yn caniatáu dealltwriaeth o lefel y galw, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau parhaol.
- 3.2 Arweiniodd llwyddiant y contract allanol, a'r gefnogaeth werthfawr a haen ychwanegol o graffu ac annibyniaeth a ddarparwyd gan sefydliad allanol, at broses dendro arall gan y tri comisiynydd heddlu a throsedd yn 2021/22. Yn dilyn proses gaffael gystadleuol, dyfarnwyd y contract i Sancus unwaith eto a bydd yn dechrau ym mis Ebrill 2022. Bydd y contract yn rhedeg am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd unigol arall os oes gofyn. Cymeradwyodd y Comisiynydd y contract hwn yng Nghofnod Penderfyniad [PCCG-2021-035](#).
- 3.4 Caiff pob unigolyn ei hysbysu bod yr adolygiadau am gwynion yn cael eu rhoi ar gontract allanol i sefydliad annibynnol. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar adran cwynion gwefan



Swyddfa Comisiynydd Gwent yn yr hysbysiad preifatrwydd ac mae hefyd ar gael yn y ffurflen adolygu y gofynnir i achwynwyr ei llenwi.

#### **4. Adolygiadau 2021/22**

- 4.1 Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, derbyniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd 46 o geisiadau dilys i adolygu canlyniad cwyn am yr heddlu.
- 4.2 O'r 46 o adolygiadau dilys hynny, cafodd 43 ohonynt eu terfynu erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22 yn ogystal ag 11 a gafodd eu terfynu a oedd wedi cael eu cario drosodd o 2020/21. Barnwyd bod 49 (91%) yn rhesymol a chymesur ac felly ni chawsant eu cadarnhau, a barnwyd nad oedd y pump (9%) a oedd yn weddill yn rhesymol a chymesur ac felly cawsant eu cadarnhau.
- 4.3 Ar gyfartaledd cymerodd 32 diwrnod gwaith i derfynu adolygiad o ddyddiad derbyn y cais hyd at anfon y llythyr canlyniad.
- 4.4 Dim ond os bernir na chafodd cwyn ei thrin mewn ffordd resymol a chymesur y caiff argymhellion eu gwneud. Gwnaed cyfanswm o dri argymhelliad mewn perthynas â'r pum cwyn y barnwyd na chawsant eu trin mewn ffordd resymol a chymesur. Derbyniwyd pob argymhelliad a chawsant eu rhoi ar waith gan yr Adran Safonau Proffesiynol.
- 4.5 Gellir gweld gwybodaeth bellach yn Adroddiad Blynyddol ar Adolygiadau o Gŵynion Swyddfa'r Comisiynydd.

#### **5.0 Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**

- 5.1 Gellir gweld ystadegau chwarterol a blynyddol IOPC ar ei gwefan, trwy ddilyn y ddolen ganlynol: [Heddlu Gwent | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu](#)

#### **6.0 Cyhoeddi**

- 6.1 Yn unol â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021 bydd yr wybodaeth a'r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Comisiynydd.